DIGC

# IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

## Llawlyfr Gweinyddu CBAC

Mae'r Llawlyfr Gweinyddu hwn yn rhoi'r wybodaeth hanfodol i ganolfannau yng Nghymru ar gyfer gweinyddu'r cymwysterau canlynol a reolir gan CBAC:

- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau
- TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (Gradd Unigol a Dwyradd)
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
- Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau (Tystysgrif a Diploma)
- TAG UG/Safon Uwch Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant

**1. CYFLWYNIAD** .... 4

1.1 YNGLŶN Â'R DDOGFEN HON .... 4
1.2 MANYLION CYSWLLT .... 4

**2. CYMERADWYO CANOLFAN A CHYMHWYSTER** .... 5

2.1 CANOLFANNAU NEWYDD .... 5
2.2 CANOLFANNAU COFRESTREDIG .... 5

**3. COFRESTRIADAU A FFIOEDD** .... 6

3.1 DATA SYLFAENOL COFRESTRU .... 6
3.2 YR UNEDAU A'R CYMWYSTERAU SYDD AR GAEL .... 6
3.3 DYDDIADAU A FFIOEDD COFRESTRU .... 13
3.4 RHEOLAU AILSEFYLL UNEDAU .... 13

**4. CYMEDROLI/GWIRIO** .... 15

4.1 CADW GWAITH A ASESIR YN FEWNOL YN DDIOGEL .... 15
4.2 CYFLWYNO MARCIAU ASESIAD MEWNOL .... 15
4.3 SAFONI MEWNOL .... 16
4.4 SAMPL CYMEDROLI/GWIRIO .... 16
4.5 CYMEDROLI/GWIRIO ALLANOL .... 18
4.6 ADBORTH .... 18

**5. ARHOLIADAU A PHROFION** .... 19

5.1 PRAWF DEWIS LLUOSOG AR ALW .... 19
5.2 ARHOLIADAU WEDI'U HAMSERLENNU .... 19
5.3 DERBYN A STORIO ARHOLIADAU A CHOPÏAU CALED O BROFION. .... 19
5.4 CYNNAL ARHOLIADAU A PHROFION .... 20

**6. CANLYNIADAU** .... 21

6.1 CANLYNIADAU .... 21
6.2 ADOLYGU'R CYMEDROLI/GWIRIO AR ÔL Y CANLYNIADAU .... 21
6.3 TYSTYSGRIFAU .... 22

**7. GRADDIO AC ADRODD YN ÔL** .... 23

7.1 LEFEL 2 GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT: CRAIDD .... 23
7.2 LEFEL 2 GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT: YMARFER A THEORI .... 23
7.3 LEFEL 2 IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU .... 23
7.4 TGAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT (GRADD UNIGOL A DWYRADD) .... 24
7.5 LEFEL 3 GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT: YMARFER A THEORI .... 25
7.6 LEFEL 3 IECHYD A GOFAL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU (TYSTYSGRIF A DIPLOMA) .... 26
7.8 TARIFF UCAS .... 27

**8. TREFNIADAU MYNEDIAD AC YSTYRIAETH ARBENNIG** .... 28

8.1 DIFFINIADAU .... 28
8.2 COLLI GWAITH A ASESIR GAN Y GANOLFAN .... 28
8.3 GWYBODAETH BELLACH .... 28

**9. CAMYMDDWYN** .... 29

**Sylwer: gallai'r ddogfen hon newid. Byddai'n syniad da i chi ddarllen y fersiwn electronig sydd ar gael ar wefan y Consortiwm er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf.**

# 1. CYFLWYNIAD

## 1.1 Ynglŷn â'r ddogfen hon

Mae'r gyfres o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant Cymru yn cael ei chynnig gan City & Guilds a CBAC yn gweithio fel Consortiwm. Y Consortiwm yw unig ddarparwr y gyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant sy'n cael eu hariannu yng Nghymru.

Mae'r Llawlyfr Gweinyddu hwn yn rhoi'r wybodaeth hanfodol i ganolfannau yng Nghymru ar gyfer gweinyddu'r cymwysterau canlynol a reolir gan CBAC:

Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd
Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau
TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (Gradd Unigol a Dwyradd)
Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau (Tystysgrif a Diploma)
TAG UG/Safon Uwch Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant

## 1.2 Manylion Cyswllt

Ar gyfer unrhyw ymholiadau ynglŷn â materion gweithredol y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon, cysylltwch ag aelod o dîm Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant isod.

| **Am ymholiadau gweinyddol cyffredinol e-bostiwch** HSCandCC@wjec.co.uk | | |
|---|---|---|
| Proses Gymeradwyo | ☎<br>✉ | 029 2026 5077<br>cymeradwyo@digc.cymru |
| Ymholiadau ynghylch Cymwysterau | ☎<br>✉ | 029 2240 4264<br>HSCandCC@wjec.co.uk |

# 2. CYMERADWYO CANOLFAN A CHYMHWYSTER

## 2.1 Canolfannau newydd

Os yw sefydliadau nad ydynt wedi cofrestru gyda CBAC yn dymuno darparu un neu fwy o'r cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, bydd angen iddynt wneud cais am gymeradwyaeth.

Gellir dod o hyd i'r ffurflen gymeradwyaeth canolfan a chymhwyster, ynghyd â chanllawiau ar wefan y Consortiwm.

Ar ôl derbyn y ffurflen gais wedi'i chwblhau, neilltuir Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol (SSAA) i bob canolfan, a chynhelir ymweliad cymeradwyo, ac eithrio canolfannau sy'n gwneud cais i gyflwyno'r cymhwyster TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant (Gradd Unigol a Dwyradd).

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau cychwynnol am y gyfres o gymwysterau i gwybodaeth@digc.cymru.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y broses gymeradwyo i cymeradwyo@digc.cymru.

Gall y penderfyniad cymeradwyo gymryd hyd at 30 diwrnod gwaith ar ôl cyflwyno cais wedi'i gwblhau.

## 2.2 Canolfannau cofrestredig

Nid oes angen i ganolfannau sydd wedi cofrestru gyda CBAC ar hyn o bryd i gyflwyno cymwysterau TGAU, UG ac Uwch wneud cais am gymeradwyaeth ychwanegol i gynnig y cymwysterau TGAU, UG neu Uwch yn y gyfres hon.

Er mwyn darparu unrhyw gymhwyster arall yn y gyfres hon, bydd angen i ganolfannau lenwi a chyflwyno'r ffurflen gymeradwyaeth canolfan a chymhwyster.

# 3. COFRESTRIADAU A FFIOEDD

Gellir cyflwyno cofrestriadau trwy ddefnyddio un o'r ffurfiau canlynol:

- Cyfnewid Data Electronig (EDI);
- Gwefan Ddiogel CBAC.

Gellir dod o hyd i godau cofrestru ar gyfer yr unedau a'r cymwysterau isod yn y manylebau neu yn y cyhoeddiad Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau; mae'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am yr holl gymwysterau, gan gynnwys codau cofrestru, codau cyfnewid a dyddiadau cau cofrestru. Gallwch weld y ddogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau yn yr adran Gofrestriadau ar wefan CBAC https://www.wjec.co.uk/exam-officers/entries/?language_id=2

## 3.1 Data sylfaenol cofrestru

Gellir llwytho data sylfaenol i lawr o wefan CBAC: http://www.cbac.co.uk/exam-officers/basedata/?language_id=2

Y codau cyfres arholiadau a bwrdd CBAC y bydd eu hangen ar gyfer data sylfaenol yw:

| Lefel Arholiad | Cyfres | Bwrdd |
|---|---|---|
| Cyfres yr Hydref IGC | BH | 40 |
| Cyfres y Gaeaf IGC | 1H | 40 |
| Cyfres yr Haf IGC (heblaw TGAU) | 6H | 40 |
| Cyfres Diwedd yr Haf IGC | 8H | 40 |

## 3.2 Yr unedau a'r cymwysterau sydd ar gael

Gellir cyflwyno cofrestriadau ar gyfer yr unedau a'r cymwysterau ym mhob un o'r cyfresi sydd ar gael. Mae'r tablau isod yn nodi ym mha gyfresi y bydd yr unedau a'r cymwysterau ar gael i gofrestru ar eu cyfer.

**Rhaid** defnyddio codau cofrestru cyfnewid er mwyn agregu sgorau a dyfarnu gradd gyffredinol ar gyfer y cymwysterau. Dim ond pan fydd y dysgwr wedi cyflawni neu wedi'i gofrestru ar gyfer pob uned berthnasol fydd hyn ar gael.

### Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd

| Teitl | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg | Darpariaeth y Gyfres | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gaeaf | Haf | Diwedd Haf | Hydref |
| Asesiad Mewnol | **5952U1** | **5952N1** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Prawf Dewis Lluosog (Ar-sgrin) | **5952UA** | **5952NA** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Prawf Dewis Lluosog (Ar bapur) | **5952UB** | **5952NB** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| (Cyfnewid) Cymhwyster | **5952Q0** | **5952C0** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

### Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

| Teitl | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg | Darpariaeth y Gyfres | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gaeaf | Haf | Diwedd Haf | Hydref |
| Cefnogi ymarfer craidd ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant | **5962U1** | **5962N1** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cefnogi chwarae, dysgu, twf a datblygiad | **5962U2** | **5962N2** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cefnogi maeth a hydradiad yn y blynyddoedd cynnar | **5962U3** | **5962N3** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ymateb i arwyddion o afiechyd a phlâu/heintiau posibl | **5962U4** | **5962N4** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cefnogi gofal plant 0-2 oed | **5962UA** | **5962NA** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cefnogi gofal plant 2-3 oed | **5962UB** | **5962NB** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gweithio gyda phlant 3-7 oed | **5962UC** | **5962NC** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cefnogi'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi | **5962UD** | **5962ND** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Dulliau cadarnhaol o gefnogi ymddygiad yn y blynyddoedd cynnar | **5962UE** | **5962NE** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cefnogi plant sy'n byw gyda diabetes mellitus | **5962UF** | **5962NF** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ymateb i adweithiau anaffylactig | **5962UG** | **5962NG** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyflwyniad i ddiffyg anadl ac asthma mewn plant | **5962UH** | **5962NH** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cefnogi gofal ymataliaeth mewn plant | **5962UI** | **5962NI** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cefnogi unigolion o ran symud a lleoli | **5962UJ** | **5962NJ** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyflwyniad i fesuriadau ffisiolegol mewn plant | **5962UK** | **5962NK** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynnal Profion Pwynt Gofal | **5962UL** | **5962NL** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Casglu sbesimenau | **5962UM** | **5962NM** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cefnogi plant sy'n byw gydag epilepsi | **5962UN** | **5962NN** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Monitro glwcos yng ngwaed y capilarïau | **5962UP** | **5962NP** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cefnogi plant i fonitro glwcos | **5962UQ** | **5962NQ** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Deall Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (Ar-sgrin) | **5962U5** | **5962N5** | ✓ | ✓ | **X** | **X** |
| Deall Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (Ar bapur) | **5962U6** | **5962N6** | ✓ | ✓ | **X** | **X** |
| (Cyfnewid) Cymhwyster | **5962Q0** | **5962C0** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

## Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

| Teitl | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg | Darpariaeth y Gyfres | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gaeaf | Haf | Diwedd Haf | Hydref |
| Hybu iechyd a llesiant drwy gydol camau bywyd (Ar-sgrin) | 5972UA | 5972NA | ✓ | ✓ | X | X |
| Hybu iechyd a llesiant drwy gydol camau bywyd (Ar bapur) | 5972UB | 5972NB | ✓ | ✓ | X | X |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â chefnogi darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer gofal person-ganolog | 5972U2 | 5972N2 | X | ✓ | X | X |
| (Cyfnewid) Cymhwyster | 5972Q0 | 5972C0 | ✓ | ✓ | X | X |

## TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (Gradd Unigol a Dwyradd)

| Teitl | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg | Darpariaeth y Gyfres | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gaeaf | Haf | Diwedd Haf | Hydref |
| Twf, Datblygiad a Llesiant Dynol (Ar-sgrin) | 3570UA | 3570NA | X | ✓ | X | X |
| Twf, Datblygiad a Llesiant Dynol (Ar bapur) | 3570UB | 3570NB | X | ✓ | X | X |
| Hybu a Chynnal Iechyd a Llesiant | 3570U2 | 3570N2 | X | ✓ | X | X |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yn yr 21ain ganrif (Ar-sgrin) | 3570UC | 3570NC | X | ✓ | X | X |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yn yr 21ain ganrif (Ar bapur) | 3570UD | 3570ND | X | ✓ | X | X |
| Hybu a Chefnogi Iechyd a Llesiant er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol | 3570U4 | 3570N4 | X | ✓ | X | X |
| Cymhwyster Gradd Unigol (cyfnewid) | 3570QS | 3570CS | X | | X | X |
| Cymhwyster Dwyradd (cyfnewid) | 3570QD | 3570CD | X | | X | X |

## Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

| Title | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg | Darpariaeth y Gyfres | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gaeaf | Haf | Diwedd Haf | Hydref |
| Hybu ymarfer craidd ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant | **4963U1** | **4963N1** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Hybu chwarae, dysgu, twf a datblygiad | **4963U2** | **4963N2** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Hybu maeth a hydradu yn y blynyddoedd cynnar | **4963U3** | **4963N3** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ymateb i afiechyd, pla/haint, clefyd ac imiwneiddio mewn plentyndod | **4963U4** | **4963N4** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Hybu gofal plant 0-2 oed | **4963U5** | **4963N5** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Hybu gofal plant 2-3 oed | **4963U6** | **4963N6** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Hybu gweithio gyda phlant 3-7 oed | **4963U7** | **4963N7** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Hybu'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi | **4963UA** | **4963NA** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cefnogi teuluoedd i feithrin sgiliau rhianta | **4963UB** | **4963NB** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Hybu a chefnogi lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu | **4963UC** | **4963NC** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Dulliau cadarnhaol o gefnogi ymddygiad yn y blynyddoedd cynnar | **4963UD** | **4963ND** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol | **4963UE** | **4963NE** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cefnogi plant sy'n byw gydag epilepsi | **4963UF** | **4963NF** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cefnogi hybu iechyd plant | **4963UG** | **4963NG** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Monitro glwcos yng ngwaed y capilarïau | **4963UH** | **4963NH** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cefnogi plant i fonitro glwcos | **4963UI** | **4963NI** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cymryd samplau gwaed gwythiennol gan blant | **4963UJ** | **4963NJ** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Rhoi gofal i blant sy'n byw gyda chanser | **4963UK** | **4963NK** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gofal lliniarol a gofal diwedd oes i blant a phobl ifanc | **4963UL** | **4963NL** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Rhoi brechiadau trwynol rhag y ffliw | **4963UM** | **4963NM** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Rhoi gofal stoma | **4963UN** | **4963NN** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofalu am glwyfau nad ydynt yn rhai cymhleth | **4963UP** | **4963NP** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynnal profion sgrinio golwg | **4963UQ** | **4963NQ** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynnal profion sgrinio'r clyw ar gyfer plant oed ysgol | **4963UR** | **4963NR** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Awtochwistrellu adrenalin | **4963US** | **4963NS** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cefnogi rhieni newydd a darpar rieni | **4963UT** | **4963NT** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyflwyniad i ofal plant yn y cartref | **4963UU** | **4963NU** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Paratoi ar gyfer ymarfer ym maes gwarchod plant | **4963UV** | **4963NV** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Hwyluso dysgu mewn grŵp | **4963UW** | **4963NW** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cefnogi unigolion drwy fwydo gyda thiwb | **4963UX** | **4963NX** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cefnogi plant sy'n byw gyda diabetes mellitus | **5962UF** | **5962NF** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ymateb i adweithiau anaffylactig | **5962UG** | **5962NG** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyflwyniad i ddiffyg anadl ac asthma mewn plant | **5962UH** | **5962NH** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cefnogi gofal ymataliaeth mewn plant | **5962UI** | **5962NI** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cefnogi unigolion o ran symud a lleoli | **5962UJ** | **5962NJ** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyflwyniad i fesuriadau ffisiolegol mewn plant | **5962UK** | **5962NK** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynnal profion pwynt gofal | **5962UL** | **5962NL** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Casglu sbesimenau | **5962UM** | **5962NM** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Egwyddorion a damcaniaethau sy'n dylanwadu ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru. (Ar sgrin) | **4963U8** | **4963N8** | ✓ | ✓ | **X** | **X** |
| Egwyddorion a damcaniaethau sy'n dylanwadu ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru (Papur) | **4963U9** | **4963N9** | ✓ | ✓ | **X** | **X** |
| Ymchwilio i faterion cyfredol ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru | **4963UY** | **4963NY** | **X** | ✓ | **X** | **X** |
| **(Cyfnewid) Cymhwyster** | **4963Q0** | **4963C0** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

## Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

| Teitl | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg | Darpariaeth y Gyfres | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gaeaf | Haf | Diwedd Haf | Hydref |
| Egwyddorion gofal ac ymarfer diogel o fewn gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau | 4973U1 | 4973N1 | X | ✓ | X | X |
| Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes a sut mae hyn yn effeithio ar ganlyniadau ac anghenion gofal a chymorth (Ar sgrin) | 4973UA | 4973NA | ✓ | ✓ | X | X |
| Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes a sut mae hyn yn effeithio ar ganlyniadau ac anghenion gofal a chymorth (Papur) | 4973UB | 4973NB | ✓ | ✓ | X | X |
| Hybu hawliau unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes | 4973U3 | 4973N3 | X | ✓ | X | X |
| Deall sut mae cyflyrau cyffredin yn effeithio ar y corff dynol * | 4973U4 | 4973N4 | X | ✓ | X | X |
| Cefnogi unigolion sydd mewn perygl i gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n dymuno eu cael (Ar sgrin)* | 4973UC | 4973NC | ✓ | ✓ | X | X |
| Cefnogi unigolion sydd mewn perygl i gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n dymuno eu cael (Papur)* | 4973UD | 4973ND | ✓ | ✓ | X | X |
| Gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol * | 4973U6 | 4973N6 | X | ✓ | X | X |
| (Cyfnewid) Tystysgrif | 4973QC | 4973CC | ✓ | ✓ | X | X |
| (Cyfnewid) Diploma | 4973QD | 4973CD | ✓ | ✓ | X | X |

*Ar gael am y tro cyntaf yn 2022

## TAG UG/Safon Uwch Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant

| Teitl | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg | Darpariaeth y Gyfres | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gaeaf | Haf | Diwedd Haf | Hydref |
| Hybu iechyd a llesiant | **2570U1** | **2570N1** | **X** | ✓ | **X** | **X** |
| Cefnogi iechyd, llesiant a gwydnwch yng Nghymru | **2570U2** | **2570N2** | **X** | ✓ | **X** | **X** |
| Safbwyntiau damcaniaethol ar ddatblygiad plant a phobl ifanc | **1570U3** | **1570N3** | **X** | ✓ | **X** | **X** |
| Cefnogi datblygiad, iechyd, llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc * | **1570U4** | **1570N4** | **X** | ✓ | **X** | **X** |
| Safbwyntiau damcaniaethol ynghylch ymddygiad oedolion * | **1570U5** | **1570N5** | **X** | ✓ | **X** | **X** |
| Cefnogi oedolion i gynnal iechyd, llesiant a gwydnwch * | **1570U6** | **1570N6** | **X** | ✓ | **X** | **X** |
| Cymhwyster UG (cyfnewid) | **2570QS** | **2570CS** | X | ✓ | X | X |
| Cymhwyster Safon Uwch (cyfnewid) | **1570QS** | **1570CS** | X | ✓ | X | X |

* Ar gael am y tro cyntaf yn Mai/Mehefin 2022

## 3.3 Dyddiadau a ffioedd cofrestru

| Lefel Arholiad | Cyfnod cofrestru yn dechrau | Cyfnod cofrestru yn gorffen | Codi ffioedd hwyr o * | Codi ffioedd hwyr iawn no ** |
|---|---|---|---|---|
| Cyfres y Gaeaf IGC | 5 Hydref | 30 Tachwedd | 1 Rhagfyr | 8 Ionawr |
| Cyfres yr Haf IGC (heblaw TGAU) | 1 Rhagfyr | 24 Ebrill | 25 Ebrill | 25 Mai |
| Cyfres Diwedd yr Haf IGC | 25 Ebrill | 17 Gorffennaf | 18 Gorffennaf | amh |
| Cyfres yr Hydref IGC | 18 Gorffennaf | 4 Hydref | 5 Hydref | amh |

** Nid yw ffioedd hwyr yn berthnasol i'r cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd nac yn yr unedau ymarfer yn y cymwysterau Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori a'r Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori.*
*** Mae ffioedd hwyr iawn yn berthnasol i'r arholiad ysgrifenedig Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau yn unig.*

Cyhoeddir dyddiadau a ffioedd cofrestru ym mis Medi a gellir eu gweld ar wefan CBAC.

## 3.4 Rheolau ailsefyll unedau

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r rheolau ailsefyll ar gyfer yr unedau o fewn y gyfres o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant. Am ragor o wybodaeth, cyfeiriwch at y manylebau neu at Ganllaw Ailsefyll CBAC sydd ar gael ar y wefan.

| Cymhwyster | Asesu | Rheol ailsefyll |
|---|---|---|
| Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd | Allanol | Does dim cyfyngiadau ar sawl gwaith y gellir ailsefyll. |
| | Mewnol | Gall ymgeiswyr nad ydynt yn ennill digon o farciau i lwyddo mewn asesiad mewnol ailsefyll yr asesiad gan ddefnyddio cyfres newydd o gwestiynau/tasgau. Os bydd yr ymgeisydd wedi defnyddio pob cronfa o gwestiynau/tasgau sydd ar gael, rhaid defnyddio astudiaeth achos newydd a chronfa newydd o gwestiynau/tasgau. |
| Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori | Pob uned | Does dim cyfyngiadau ar sawl gwaith y gellir ailsefyll. |
| Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau | Allanol | Caniateir i ymgeiswyr ailsefyll yr arholiad allanol unwaith gyda'r radd uchaf yn cyfrannu at ddyfarniad y cymhwyster. |
| | Mewnol | Unwaith yn unig y gall ymgeiswyr ailsefyll yr uned a asesir yn fewnol. Os bydd ymgeisydd yn dewis ailsefyll yr uned, rhaid iddo ailsefyll Aseiniad 1 a 2. Gellir trosglwyddo marciau Asesu Di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb. |

| | | |
|---|---|---|
| TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (Gradd Unigol a Dwyradd) | Pob uned | Unwaith yn unig y gall ymgeiswyr ailsefyll uned unigol. Os yw ymgeisydd yn cofrestru am uned am y trydydd tro, bydd rhaid i'r ymgeisydd ail-gofrestru am bob uned a'r cyfnewid priodol. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd'. |
| Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori | Allanol | Caniateir i ymgeiswyr ailsefyll yr arholiad allanol unwaith gyda'r radd uchaf yn cyfrannu at ddyfarniad y cymhwyster. Does dim cyfyngiadau ar sawl gwaith y gellir ailsefyll y cymhwyster. |
| Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau (Tystysgrif a Diploma) | Allanol | Caniateir i ymgeiswyr ailsefyll yr arholiad allanol unwaith gyda'r radd uchaf yn cyfrannu at ddyfarniad y cymhwyster. Does dim cyfyngiadau ar sawl gwaith y gellir ailsefyll y cymhwyster. |
| | Mewnol | Unwaith yn unig y gall ymgeiswyr ailsefyll pob uned a asesir yn fewnol, Os yw ymgeisydd yn dewis ailsefyll uned, yna mae'n rhaid ymgymryd ag aseiniad newydd sy'n seiliedig ar yr astudiaethau achos a ryddheir ar gyfer y gyfres y mae'r ailsefyll yn digwydd ynddi. Os yw ymgeisydd yn dewis ailsefyll Uned 6, gall ddefnyddio'r un lleoliad profiad gwaith fel sail ar gyfer ailsefyll Aseiniad 2. Rhaid defnyddio'r un lefelau o reolaeth wrth gwblhau'r ailsefyll. Ni all ymgeiswyr wella gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol. Gellir trosglwyddo marciau Asesu Di-arholiad am oes y fanyleb. Os yw ymgeisydd yn ailsefyll Asesiad Di-arholiad (yn hytrach na throsglwyddo marc yr Asesiad Di-arholiad blaenorol), yna'r marc uwch fydd yn cyfrif tuag at y radd gyffredinol. |
| TAG UG/Safon Uwch Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant | Pob uned | Unwaith yn unig y gall ymgeiswyr ailsefyll uned unigol. Os yw ymgeisydd yn cofrestru am uned am y trydydd tro, bydd rhaid i'r ymgeisydd ail-gofrestru am bob uned a'r cyfnewid priodol. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd'. |

Rhaid i ymgeiswyr sy'n dewis ailsefyll uned sefyll asesiad gwahanol i'r gwaith a aseswyd yn wreiddiol. Mae hyn yn golygu:

- na allant wella ar waith sydd eisoes wedi'i gyflwyno i'w asesu'n flaenorol
- rhaid i deitl y gwaith fod yn wahanol i'r hyn a gyflwynwyd yn flaenorol

Gallai methu â bodloni'r gofynion hyn olygu camymddwyn ac, fel y cyfryw, byddai adran Cydymffurfiaeth CBAC yn delio â hyn.

Gall ymgeiswyr ailsefyll pob cymhwyster sawl gwaith.

# 4. CYMEDROLI/GWIRIO

Bydd marciau a graddau canolfannau yn cael eu cymedroli neu'u gwirio'n allanol gan CBAC er mwyn sicrhau bod safonau yn cael eu gweithredu'n gywir ac yn gyson mewn ac ar draws canolfannau.

## 4.1 Cadw gwaith a Asesir yn Fewnol yn ddiogel

Rhaid cwblhau'r gwaith a asesir yn fewnol o dan amodau'r asesiad dan reolaeth. Nodir y rheolaethau hyn yn benodol yn y fanyleb ar gyfer pob cymhwyster.

Sylwch mai cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau bod yr holl ddeunydd asesu (gan gynnwys gwaith myfyrwyr) yn cael ei storio'n ddiogel o fewn y ganolfan, fel arfer mewn cwpwrdd dan glo ac yn unol â chyfarwyddiadau y CGC ar gyfer cynnal asesiadau di-arholiad TGAU a chyfarwyddiadau CBAC ar gyfer cynnal asesiadau dan reolaeth. Rhaid storio'r deunyddiau a'r gwaith yn ddiogel drwy gydol y cyfnod asesu ac hyd nes bod y dyddiad cau ar gyfer gwasanaethau ar ôl y canlyniadau wedi mynd heibio neu tan fydd apêl neu ymchwiliad camymddwyn wedi'i gwblhau, pa bynnag un fo'r hwyraf. Rhaid casglu'r gwaith a wneir dros nifer o sesiynau ar ddiwedd pob sesiwn a'i storio'n ddiogel. Mae'n rhaid i waith sy'n cael ei gynhyrchu'n electronig gael ei arbed yn ddiogel i sicrhau nad yw'n gallu cael ei ddiwygio rhwng sesiynau.  Dylai gwaith sy'n cael ei storio ar gof bach hefyd gael ei gasglu ar ôl pob sesiwn.

Bydd methu â chydymffurfio yn golygu camymddwyn a gall olygu bod gwaith yn anghymwys i'w asesu. Rhaid rhoi gwybod am unrhyw achosion o gamymddwyn i dîm Cydymffurfiaeth CBAC a byddant yn cael eu hymchwilio'n llawn.

## 4.2 Cyflwyno Marciau Asesiad Mewnol

Unwaith y bydd y cofrestriadau wedi'u cyflwyno i CBAC a'u prosesu, **rhaid** i ganolfannau fewngofnodi ar wefan ddiogel CBAC a chlicio ar y tab 'Asesu Mewnol' ac yna'r tab 'Marciau Asesiad Mewnol/Canlyniadau'. Bydd tudalen we (a elwir yn System Mewnbynnu Marciau Asesiad Mewnol – IAMIS) ar gael ar gyfer pob uned a asesir yn fewnol y mae gan y ganolfan gofrestriadau ar ei chyfer; bydd y dudalen eisoes yn cynnwys enwau a rhifau'r ymgeiswyr. Bydd angen i ganolfannau fewnbynnu'r **marciau/graddau a blaenlythrennau'r aseswr a/neu'r Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol (SSAM)** ar gyfer pob ymgeisydd yn y lleoedd gwag a ddarperir.

**Cyflwyno canlyniadau** – trwy gyflwyno canlyniadau i CBAC rydych chi'n datgan y canlynol:
- bod y cymedroli mewnol i gyd wedi ei gwblhau;
- bod y marciau sydd wedi cael eu cyflwyno yn gywir ac yn ddilys;
- bod gwaith ymgeiswyr wedi'i gwblhau ac ar gael i'w gymedroli neu i'w wirio'n allanol (fel y nodir yn y manylebau).

**Newid marciau/graddau ar ôl eu cyflwyno –** nid yw'n bosibl i'r ganolfan newid marciau na graddau ar ôl eu cyflwyno drwy IAMIS. Os yw athrawon yn sylwi bod gradd neu farc wedi'i fewnbynnu yn anghywir, **rhaid** i'r Swyddog Arholiadau neu'r SSAM anfon e-bost i CBAC a chynnwys y wybodaeth ganlynol:
- enw a rhif y ganolfan
- enw a rhif yr ymgeisydd
- cymhwyster ac uned dan sylw
- hen farc a marc newydd
- rheswm dros y newid.

Mae CBAC yn cadw'r hawl i wneud cais i weld unrhyw waith sy'n gysylltiedig â chais i ddiwygio marciau. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd CBAC yn cysylltu â Phennaeth y Ganolfan ac yn gofyn am wybodaeth ychwanegol.

**Newid marciau ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau** – os yw athro neu athrawes yn sylwi bod marc anghywir wedi cael ei gyflwyno ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau, **rhaid** i Bennaeth y Ganolfan anfon cais ysgrifenedig yn esbonio'r amgylchiadau yn eglur i CBAC er mwyn i'r marc gael ei newid. **Rhaid** cynnwys y gwaith ei hun (neu gopi ohono) yn ogystal â thaflen farciau fewnol y ganolfan wedi'i chwblhau, ei llofnodi a'i dyddio gyda'r cais ysgrifenedig hwn. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyfeirio at y swyddog pwnc. Ar ôl i'r dystiolaeth gael ei hystyried gellir newid y marc neu gellir gwrthod y cais.

**Mae CBAC yn monitro diwygiadau i farciau sy'n cael eu cyflwyno gan ganolfannau a gall gynnal gwiriadau ychwanegol.**

## 4.3 Safoni Mewnol

Dylai'r sampl fod yn **gynrychiadol** o safon farcio'r ganolfan. Mae'n hanfodol bod proses o safoni mewnol yn digwydd **cyn** i'r marciau neu raddau terfynol gael eu cyflwyno i CBAC. Bydd dull addas o gyflawni hyn yn dibynnu ar drefniant y ganolfan ei hun. **Rhaid i'r aseswr arweiniol ail-asesu sampl o ymgeiswyr pob aseswr.**

## 4.4 Sampl Cymedroli/Gwirio

Caiff maint y sampl ei seilio ar nifer yr ymgeiswyr a gofrestrir i roi lleiafswm maint y sampl ac wedyn ar nifer yr aseswyr; gydag o leiaf tri ymgeisydd i'w dewis o grŵp pob aseswr. Bydd y sampl yn adlewyrchu'r ystod marciau a ddyfernir, gan gynnwys y marc uchaf ac isaf yn y ganolfan.

**TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant**
**Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau**
**Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau (Tystysgrif/Diploma)**
**TAG UG/Safon Uwch Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant**
Ar ôl i farciau pob ymgeisydd gael eu mewnbynnu a'u cyflwyno, bydd IAMIS yn dewis samplau'n awtomatig. Yna dylid anfon y sampl y gellir ei weld ar IAMIS fel bod y cymedrolwr yn ei dderbyn erbyn y dyddiad a nodir. Gellir gofyn am waith ychwanegol y tu allan i'r sampl.

| *Cyfanswm yr ymgeiswyr* | *Lleiafswm yn y sampl* |
|---|---|
| 1 – 10 | Pob un |
| 11 – 100 | 10 |
| 101 – 200 | 15 |
| 201 – 500 | 25 |
| 501 – 999 | 50 |

**Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd**
Ar ôl i farciau pob ymgeisydd gael eu mewnbynnu a'u cyflwyno, bydd IAMIS yn dewis samplau'n awtomatig. Dylid sicrhau bod y sampl y gellir ei weld drwy IAMIS ar gael i'r Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol (SSAA). Gellir gofyn am waith ychwanegol y tu allan i'r sampl.

**Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori**
**Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori**
Bydd y SSAM yn dewis y sampl ar IAMIS. Dylai'r sampl SSAM gynnwys pob math o'r canlynol:

- Ymgeiswyr – e.e. rhywedd ac unrhyw nodwedd berthnasol arall o boblogaeth y dysgwyr
- Aseswyr – profiad a chymwysterau, llwyth gwaith, profiad galwedigaethol, DPP ac ati.
- Dulliau asesu – cwestiynu, arsylwi, tystiolaeth, trafodaeth broffesiynol ac ati.
- Tystiolaeth – cadarnhad ysgrifenedig bod tystiolaeth yn ddilys, yn wir, yn gyfredol, yn ddigonol ac ati.
- Cofnodion – adroddiadau gan aseswyr, arferion asesu cywir, portffolios a ffeiliau dysgwyr ac ati.
- Safleoedd asesu – asesiadau gweithle, hyfforddiant coleg ac i ffwrdd o'r gwaith, lleoliadau asesu eraill

Dylai gwaith y sampl fod ar gael i'r SSAA sy'n ymweld. Gellir gofyn am waith ychwanegol y tu allan i'r sampl.

**Ymgeiswyr Unigol – rhaid** i waith sy'n rhan o'r sampl fod ar gael i'w gymedroli neu i'w wirio. Os nad yw gwaith ymgeisydd ar gael, cofnodir y marc fel 0/methu.

**Cofrestriadau a wneir ar ôl cyflwyno marciau –** ni all canolfannau gofrestru ymgeiswyr unwaith y mae'r sampl ar gael.

**Dilysu – rhaid** i ymgeiswyr fod yn ymwybodol eu bod yn gyfrifol am sicrhau mai ei gwaith nhw a gyflwynir i'w asesu. Mae dogfen y CGC, 'Gwybodaeth i Ymgeiswyr – Asesiadau Di-arholiad', sydd ar gael ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk), yn rhoi cyfarwyddiadau a chyfarwyddyd.

## 4.5 Cymedroli/Gwirio Allanol

Unwaith y bydd cofrestriadau wedi'u cyflwyno, caiff SSAA/Cymedrolwr ei ddyrannu i ganolfannau.

Ar gyfer y cymwysterau canlynol:
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Bydd y SSAA yn cysylltu â chanolfannau i drefnu ymweliad canolfan ar gyfer gwirio allanol.

Ar gyfer y cymwysterau canlynol:
- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau
- TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (Gradd Unigol a Dwyradd)
- Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau (Tystysgrif/Diploma)
- TAG UG/Safon Uwch Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant

rhaid anfon y sampl fel bod y cymedrolwr yn ei dderbyn erbyn y dyddiad a nodir. Gellir gweld manylion y cymedrolwr ar IAMIS.

Bydd y SSAA/cymedrolwr yn ystyried y sampl a gyflwynwyd. Pe bai ymholiad yn codi, gallai CBAC ofyn am ddarparu sampl pellach.

Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau lle mae CBAC yn gwneud cais i weld mwy o waith, gweithredir y protocolau canlynol:

- Bydd staff gweinyddol CBAC yn cysylltu â'r Swyddog Arholiadau/SSAM yn y ganolfan i gadarnhau ar lafar bod y SSAA/Cymedrolwr wedi gwneud cais i weld mwy o waith.
- Bydd CBAC yn gofyn i'r gwaith fod ar gael i'r SSAA/cymedrolwr o fewn pum diwrnod gwaith i ddyddiad gwneud y cais, ac yn rhoi dyddiad penodol.
- Bydd CBAC yn anfon e-bost dilynol at y Swyddog Arholiadau/SSAM i gadarnhau'r cais.

Noder na fydd staff CBAC yn trafod y mater gydag unrhyw un heblaw'r Swyddog Arholiadau/SSAM, ac ni fyddant yn gallu trafod y rheswm pam y gofynnwyd am ragor o waith.

Mae CBAC yn cadw'r hawl i ofyn am fwy o waith neu i ymweld â chanolfan ar fyr rybudd neu heb roi gwybod ymlaen llaw.

## 4.6 Adborth

Darperir adborth ynglŷn â chymedroli pan gyhoeddir y canlyniadau, ar ffurf adroddiad a fydd ar gael ar IAMIS. Bydd yr adroddiad yn cynnig adborth ar:

(i) effeithlonrwydd gweinyddiaeth y ganolfan;
(ii) cywirdeb asesiadau'r ganolfan yn erbyn y meini prawf ac mewn perthynas â'r safon y cytunwyd arni ar gyfer pob un o ddeilliannau dysgu'r gydran;
(iii) a newidiwyd marciau'r ganolfan a'r rhesymau dros wneud hynny.

# 5. ARHOLIADAU A PHROFION

## 5.1 Prawf dewis lluosog ar alw

Gellir cyrchu y prawf dewis lluosog allanol ar gyfer y cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd ar alw drwy system Surpass CBAC. Mae'r profion ar-sgrin yn cael eu marcio'n awtomatig a bydd y ganolfan yn cael y canlyniadau ar yr un diwrnod ag y cwblheir yr asesiad.

Os oes angen copi papur o'r prawf ar y canolfannau, bydd CBAC yn danfon copïau papur yn ddiogel i'r ganolfan. Bydd angen i ganolfannau ddychwelyd fersiynau papur o brofion i CBAC i'w marcio. Bydd y canlyniadau yn cael eu rhyddhau i'r canolfannau ymhen 20 diwrnod gwaith ar ôl iddyn nhw ddod i law.

## 5.2 Arholiadau wedi'u hamserlennu

Mae arholiadau wedi'u hamserlennu y gellir eu sefyll ym mis Mehefin a mis Ionawr ar gyfer y cymwysterau canlynol:

- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
- Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau (Tystysgrif/Diploma)

Mae'r arholiadau ar gyfer cymwysterau TGAU/TAG UG a Safon Uwch Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant ar gael ym mis Mehefin yn unig.

## 5.3 Derbyn a storio arholiadau a chopïau caled o brofion.

Rhaid cynnal diogelwch y profion a'r papurau arholiad i gyd bob amser. Rhaid cofnodi eitemau cyfrinachol sy'n cael eu danfon i'r ganolfan pan maent yn cael eu derbyn, ac eto wrth eu gosod mewn man storio diogel, yn unol â Rheoliadau'r CGC.

Rhaid i'r canlynol fod ar waith mewn canolfannau sydd wedi'u cymeradwyo i ddarparu cymwysterau heblaw TGAU:
- Sêff/cabinet â chlo sydd ar gael i storio deunyddiau arholiad a deunyddiau asesu cyfrinachol eraill yn unig.
- Rhaid lleoli'r sêff/cwpwrdd y gellir ei gloi mewn ystafell ddiogel a rhaid sicrhau nad oes drws arno sy'n arwain yn uniongyrchol i du allan yr adeilad.
- Mae'n rhaid bod rhwng 2-4 o ddeiliaid allweddi ar gyfer y sêff/cabinet, sydd wedi'u hyfforddi i sicrhau bod arholiadau a deunyddiau asesu cyfrinachol eraill yn cael eu cadw'n gyfrinachol.

Rhaid i ganolfannau sy'n cyflwyno'r cymhwyster TGAU fodloni rheoliadau'r CGC ynghylch derbyn a storio deunydd cyfrinachol yn llawn.

Rhaid i bob canolfan gysylltu â canolfannau@cbac.co.uk os ydynt yn bwriadu symud cyfeiriad neu newid eu trefniadau ar gyfer storio deunydd asesu cyfrinachol.

## 5.4 Cynnal arholiadau a phrofion

Rhaid cynnal yr holl arholiadau a phrofion yn unol â rheoliadau'r CGC a gyhoeddwyd yn nogfen y CGC – Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau. Mae'r rheoliadau hyn yn pennu trefniadau goruchwylio, pwy y caniateir ac ni chaniateir iddynt fod yn bresennol yn yr ystafell yn ystod yr asesiad, yr hysbysiadau rhybuddio y mae'n rhaid eu harddangos a gofynion eraill.

Mae'r rheoliadau hyn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl arholiadau a phrofion gael eu cynnal yng nghyfeiriad cofrestredig y ganolfan; ar gyfer cymwysterau heblaw am TGAU, rhaid rhoi gwybod i CBAC am unrhyw Safle Arall drwy gysylltu â canolfannau@cbac.co.uk. Ar gyfer TGAU, rhaid defnyddio Porth Gweinyddu Canolfannau y CGC fel arfer. Rhaid i arholiadau a phrofion a gynhelir mewn Safleoedd Eraill gael eu cynnal yn unol â Chyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau y CGC.

Mae rheoliadau y CGC sy'n ymwneud ag amseroedd dechrau arholiadau wedi'u hamserlennu yn berthnasol i bob cymhwyster ac eithrio'r prawf dewis lluosog Craidd, gan mai'r ganolfan sy'n cofrestru sy'n trefnu hwn.

# 6. CANLYNIADAU

## 6.1 Canlyniadau

Cyhoeddir canlyniadau ar y wefan ddiogel ac fel ffeil cyfnewid data electronig (EDI) (os cafodd cofrestriadau eu cyflwyno drwy EDI), a bydd hynny'n digwydd ar y dyddiadau canlynol:

| Cyfres | Dyddiad |
|---|---|
| Gaeaf | 4 Mawrth 2020 |
| Haf | 19 Awst 2020<br>TGAU (20 Awst 2020) |
| Diwedd Haf | 24 Medi 2020 |
| Hydref | 11 Rhagfyr 2020 |

## 6.2 Adolygu'r cymedroli/gwirio ar ôl y canlyniadau

Mae'r broses hon yn adolygu'r cymedroli gwreiddiol er mwyn sicrhau bod y meini prawf asesu wedi'u cymhwyso'n deg, yn ddibynadwy ac yn gyson. Noder nad yw'r gwasanaeth hwn ar gael os derbyniodd CBAC farciau eich canolfan heb eu newid.

Dylid ystyried y canlynol wrth gyflwyno cais am adolygiad o'r cymedroli ar ôl y canlyniadau:

- Dylid cyflwyno'r cais i CBAC drwy'r wefan ddiogel.
- Nid yw'n angenrheidiol cael cydsyniad yr ymgeisydd.
- Y terfyn amser ar gyfer cwblhau yw o fewn 35 diwrnod calendr ar ôl i'r cymedrolwr dderbyn y sampl gwaith gwreiddiol gan y ganolfan.
- Cynhelir y gwaith o adolygu'r cymedroli ar y sampl gwreiddiol o waith ymgeiswyr.
- Gall yr adolygiad o'r cymedroli gynnwys adborth tebyg i'r hyn a ddarparwyd ar ôl y cymedroli gwreiddiol.
- Os adferir marciau'r ganolfan, ni fydd adborth yn cael ei roi.
- Ni fydd adolygiad o'r cymedroli'n cael ei gynnal ar waith ymgeisydd unigol nac ar waith ymgeiswyr nad oeddent yn y sampl gwreiddiol.

Dim ond ar gyfer y gyfres y cyflwynwyd y cais ar ei chyfer y gellir adolygu'r cymedroli.

Rhaid i ganolfannau sydd â'r sampl gwreiddiol o waith yn eu meddiant sicrhau ei fod yn barod ar gyfer ymweliad arall (neu yn barod i'w anfon – bydd manylion y cymedrolwr/SSAA y dylid anfon y gwaith ato yn cael eu darparu). **Ni ddylid** anfon gwaith a asesir gan y ganolfan ar adeg cyflwyno'r cais.

Yn achos gwaith a gyflwynir am adolygiad o'r cymedroli, **rhaid**:

- ei anfon at y cymedrolwr/SSAA o fewn **3 diwrnod gwaith – gall methiant i wneud hyn ohirio canlyniad yr ymholiad neu arwain at ganslo'r ymholiad;**
- bod yn waith gwreiddiol a gyflwynwyd i'w gymedroli;
- bod wedi'i gadw dan amodau diogel a heb ei ddychwelyd at yr ymgeiswyr.

Ewch i https://www.cbac.co.uk/exam-officers/post-results-service/?language_id=2 am ragor o wybodaeth gan gynnwys y dyddiadau a'r costau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth hwn.

## 6.3 Tystysgrifau

Dosberthir tystysgrifau i ganolfannau ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau ar ôl pob cyfres. Ni fydd tystysgrifau'n cael eu rhyddhau cyn diwedd dyddiad cau'r gwasanaethau ar ôl y canlyniadau. Bydd fersiynau ar-lein o'r tystysgrifau ar gael (oni bai am y cymhwyster TGAU) cyn y dyddiadau cyhoeddi drwy'r wefan ddiogel.

# 7. GRADDIO AC ADRODD YN ÔL

## 7.1 Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd

I gyflawni'r cymhwyster, rhaid i ymgeiswyr **lwyddo** yn y canlynol:

- tri asesiad mewnol, seiliedig ar senario mewnol, a osodir yn allanol; ac
- un prawf dewis lluosog i'w osod yn allanol a'i farcio'n allanol.

Mae'r asesiadau a'r unedau yn cael eu graddio ar sail llwyddo/methu.

## 7.2 Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Er mwyn cyflawni'r cymhwyster, rhaid i ddysgwyr gyflawni cyfanswm o leiaf **40** credyd:

- rhaid ennill 25 credyd o Grŵp Gorfodol 1
- rhaid ennill o leiaf 3 chredyd o Grŵp Dewisol A
- gellir ennill y 7 credyd sy'n weddill o unedau o fewn Grwpiau Dewisol A, B neu C
- rhaid ennill o leiaf 5 credyd o Grŵp Gorfodol 2.

Bydd y cymhwyster yn cael ei raddio ar sail llwyddo neu fethu. Dyfernir y cymhwyster i ddysgwyr sy'n cael y credyd sy'n ofynnol o Grŵp Gorfodol 1 a Grwpiau Dewisol A-C ac sy'n llwyddo yn yr asesiad allanol (Grŵp Gorfodol 2).

## 7.3 Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Bydd y cymhwyster yn cael ei raddio ar sail Llwyddo, Teilyngdod neu Ragoriaeth.

Dyfernir gradd y cymhwyster ar sail agregu'r marciau a gyflawnir ar gyfer yr unedau. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

Cofnodir canlyniadau unedau unigol ar (GMU) ac maen nhw'n cyfateb i'r graddau canlynol:

| | | Uchafswm | D | M | P | U |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Uned 1 | Arholiad | 100 | 80 | 60 | 40 | 0 |
| Uned 2 | Asesiad Di-Arholiad | 150 | 120 | 90 | 60 | 0 |

| | Uchafswm | D | M | P | U |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwyster | 250 | 200 | 150 | 100 | 0 |

## 7.4 TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (Gradd Unigol a Dwyradd)

Caiff y cymhwyster gradd unigol ei raddio A* – G a chaiff y cymhwyster dwyradd ei raddio A*A* – GG. Rhaid cwblhau o leiaf 40% o'r asesiad cyffredinol ar ddiwedd y cwrs er mwyn bodloni'r gofyn asesiad terfynol a rhaid i'r canlyniadau o'r unedau sy'n bodloni'r asesiad terfynol gyfrannu at y dyfarniad pwnc.

Cofnodir canlyniadau unedau unigol ar (GMU) ac maen nhw’n cyfateb i'r graddau canlynol:

| Unedau Unigol | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gradd | | Uchafswm | A* | A | B | C | D | E | F | G |
| Uned 1 | Arholiad | 100 | 90 | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 | 30 | 20 |
| Uned 2 | Asesiad Di-arholiad | 150 | 135 | 120 | 105 | 90 | 75 | 60 | 45 | 30 |
| Uned 3* | Arholiad | 100 | 90 | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 | 30 | 20 |
| Uned 4* | Asesiad Di-arholiad | 150 | 135 | 120 | 105 | 90 | 75 | 60 | 45 | 30 |

*Yn berthnasol i'r cymhwyster dwyradd yn unig

| Cymhwyster – Uchafswm Marciau Gradd Unigol 250 | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uchafswm | A* | A | B | C | D | E | F | G |
| 250 | 225 | 200 | 175 | 150 | 125 | 100 | 75 | 50 |

| Cymhwyster – Uchafswm Marciau Dwyradd 500 | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uchafswm | A*A* | A*A | AA | AB | BB | BC | CC | CD | DD | DE | EE | EF | FF | FG | GG |
| 500 | 450 | 425 | 400 | 375 | 350 | 325 | 300 | 275 | 250 | 225 | 200 | 175 | 150 | 125 | 100 |

## 7.5 Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Er mwyn ennill y cymhwyster, rhaid i ddysgwyr gyflawni cyfanswm o, o leiaf, **72** credyd:

- Rhaid ennill 30 o gredydau o grŵp Gorfodol 1
- Rhaid ennill o leiaf 4 credyd o grŵp Dewisol A
- Gellir ennill yr 16 o gredydau sy'n weddill o unedau o fewn Grwpiau Dewisol A, B neu C
- Rhaid ennill 22 o gredydau o grŵp Gorfodol 2.

Bydd y cymhwyster yn cael ei raddio ar sail Llwyddo, Teilyngdod, Rhagoriaeth a Rhagoriaeth*.
Bydd gradd y cymhwyster yn seiliedig ar farc GMU cyffredinol y dysgwyr. Er mwyn cael gradd Llwyddiant, Teilyngdod, Rhagoriaeth neu Ragoriaeth*, rhaid i ddysgwyr gael:
(i) gradd Llwyddiant yn yr unedau mewnol, a
(ii) y lleiafswm marciau GMU i gael y radd am y cymhwyster.

Dim ond ar lefel y cymhwyster mae'r radd Rhagoriaeth* ar gael. Nid oes Rhagoriaeth* ar lefel uned.

| | | Uchafswm | D | M | P | U |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Unit 330 | Arholiad | 100 | 80 | 60 | 40 | 0 |
| Unit 331 | Ymchwiliad Estynedig | 100 | 80 | 60 | 40 | 0 |

| | Uchafswm | D* | D | M | P | U |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwyster | 200 | 180 | 160 | 120 | 80 | 0 |

## 7.6 Lefel 3 Iechyd a Gofal: Egwyddorion a Chyd-destunau (Tystysgrif a Diploma)

Caiff Lefel 3 Tystysgrif Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau ei graddio A* - E.
Caiff Lefel 3 Tystysgrif a Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau ei graddio A*A* - EE.

Bydd gradd y cymhwyster yn seiliedig ar y marc GMU cyffredinol a chyflawniadau'r dysgwr ym mhob un o'r unedau. Er mwyn ennill gradd cymhwyster, rhaid i ddysgwyr gyflawni'r GMU gofynnol am radd y cymhwyster.

Bydd gradd A* yn cael ei dyfarnu i Ddysgwyr sy'n cyflawni gradd A yn gyffredinol ac sydd hefyd yn cyflawni 90 y cant neu fwy o'r uchafswm marciau unffurf.

| | | Uchafswm | A | B | C | D | E |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uned 1 | Arholiad | 100 | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |
| Uned 2 | Asesiad Di-arholiad | 200 | 160 | 140 | 120 | 100 | 80 |
| Uned 3 | Asesiad Di-arholiad | 100 | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |
| Uned 4 | Asesiad Di-arholiad | 80 | 64 | 56 | 48 | 40 | 32 |
| Uned 5 | Arholiad | 200 | 160 | 140 | 120 | 100 | 80 |
| Uned 6 | Asesiad Di-arholiad | 120 | 96 | 84 | 72 | 60 | 48 |

| | Uchafswm | A* | A | B | C | D | E |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tystysgrif | 400 | 360 | 320 | 280 | 240 | 200 | 160 |

| | Uchafswm | A*A* | A*A | AA | AB | BB | BC | CC | CD | DD | DE | EE |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diploma | 800 | 720 | 680 | 640 | 600 | 560 | 520 | 480 | 440 | 400 | 360 | 320 |

## 7.7 TAG UG a Safon Uwch Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant

Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster TAG UG yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A i E. Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster TAG Safon Uwch yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A* i E. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig). Defnyddir llythyren fach a i e i ddangos graddau unedau ar slipiau canlyniadau ond nid ar y tystysgrifau.

Ar gyfer Safon Uwch, dyfernir Gradd A* i ymgeiswyr sydd wedi ennill Gradd A (400 marc unffurf) yn y cymhwyster Safon Uwch cyffredinol ac o leiaf 90% o gyfanswm y marciau unffurf ar gyfer yr unedau U2 (270 marc unffurf).

| Grade | | Uchafswm | A | B | C | D | E |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Unit 1 | Arholiad | 100 | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |
| Unit 2 | Asesiad Di-arholiad | 100 | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |
| Unit 3/5 | Arholiad | 150 | 120 | 105 | 90 | 75 | 60 |
| Unit 4/6 | Asesiad Di-arholiad | 150 | 120 | 105 | 90 | 75 | 60 |

| | Uchafswm | A | B | C | D | E |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwyster UG | 200 | 160 | 140 | 120 | 100 | 80 |

| | Uchafswm | A | B | C | D | E |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwyster Safon Uwch | 500 | 400 | 350 | 300 | 250 | 200 |

## 7.8 Tariff UCAS

I gael rhagor o wybodaeth am dariff UCAS, ewch i: https://www.UCAS.com/UCAS/tariff-calculator a dewiswch y cymwysterau o'r gwymplen.

I gael gwybodaeth am bolisi sefydliad unigol ynghylch Cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, fe'ch cynghorir i gysylltu â'r adran derbyn myfyrwyr perthnasol.

# 8. TREFNIADAU MYNEDIAD AC YSTYRIAETH ARBENNIG

## 8.1 Diffiniadau

Cytunir ar drefniadau mynediad/addasiadau rhesymol cyn asesiad. Maent yn caniatáu'r canlynol i ymgeiswyr/dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig, anableddau neu anafiadau dros dro:

- cael mynediad i'r asesiad;
- dangos yr hyn maent yn ei wybod ac yn gallu ei wneud heb newid gofynion yr asesiad

Ystyriaeth Arbennig – addasiad ar ôl yr asesiad i farc/gradd ymgeisydd i adlewyrchu salwch dros dro, anaf dros dro neu anhwylder arall ar adeg yr asesu. Gellir rhoi ystyriaeth arbennig i ymgeiswyr cymwys sydd:

(a) yn bresennol ar gyfer asesiad ond o dan anfantais;
(b) yn absennol o ran o asesiad oherwydd salwch neu reswm derbyniol arall – mae hyn yn berthnasol i'r gyfres derfynol yn unig.

## 8.2 Colli gwaith a asesir gan y ganolfan

Os yw gwaith ymgeisydd (heb fod yn fai arno) ar goll yn y ganolfan arholiadau, ac er gwaethaf pob ymdrech, nid oes modd dod o hyd iddo, neu os yw wedi'i ddinistrio'n ddamweiniol, dylid hysbysu'r sefydliad dyfarnu o'r amgylchiadau ar unwaith drwy ddefnyddio **Ffurflen 15 – JCQ/LCW**. Mae'r ffurflen hon ar gael ar wefan y CGC – https://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration/forms/form-15-notification-of-lost-centre-assessed-work

## 8.3 Gwybodaeth bellach

Am wybodaeth bellach ynglŷn â threfniadau mynediad gweler dogfen y CGC: *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol 2019-2020* – ar gael o https://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration/regulations-and-guidance

Am wybodaeth bellach ynglŷn ag Ystyriaeth Arbennig gweler dogfen y CGC: *Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig 2019-2020* – ar gael o https://www.cbac.co.uk/exam-officers/A%20guide%20to%20the%20spec%20con%20process%202019%20-%20Cymraeg.pdf?language_id=2

# 9. CAMYMDDWYN

**Rhaid** rhoi gwybod i CBAC am achosion honedig o gamymddwyn gan ymgeisydd, y ganolfan neu staff y ganolfan gan ddefnyddio polisïau a gweithdrefnau 'Amau Camymddwyn mewn Arholiadau ac Asesiadau'.

Am fwy o wybodaeth ewch i: https://www.jcq.org.uk/exams-Office/malpractice